# Comisiwn y Cynulliad – Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2012-2016.

## Ymatebion i'r Ymgynghoriad

Drwy gydol mis Hydref a mis Tachwedd 2011, cynhaliodd y Tîm Cydraddoldeb ymarfer ymgynghori a oedd yn cynnwys staff y Cynulliad, Aelodau'r Cynulliad, staff Aelodau'r Cynulliad, staff dan gontract a'r cyhoedd wrth ddatblygu'n Cynllun Cydraddoldeb Strategol.

Canlyniad yr ymarfer ymgynghori hwn yw'r atborth a amlinellir isod. Mae rhai o'r pwyntiau a godwyd eisoes yn rhan o'n gwaith, ni fydd yn rhesymol nac yn bosibl gweithredu ar rai tra gellir cymryd camau gweithredu gydag eraill. Mae'r atborth yn cynnwys Busnes y Cynulliad, Cyfathrebu, Blaen y Tŷ ac Ystadau.

## Ymgysylltu â'r Cyhoedd

### Gwybodaeth ac ymwybyddiaeth

- Cafwyd llawer o atborth gan y cyhoedd am y diffyg ymwybyddiaeth gyffredinol o swyddogaeth y Cynulliad, gwaith Aelodau a'r gwahanol haenau o ddemocratiaeth yng Nghymru (Aelodau'r Cynulliad, Llywodraeth Cymru, y Cynulliad Cenedlaethol a chynghorau lleol).
- Roedd llawer o bobl hefyd yn ansicr o'r gwahaniaeth rhwng Llywodraeth Cymru a'r Cynulliad, gyda rhai'n nodi nad oedd datganiad safbwynt y Cynulliad yn gwneud llawer i egluro'r sefyllfa gan fod angen eglurhad pellach.
- Roedd pobl yn ansicr ynghylch sut y gallai Aelodau'r Cynulliad gynnig cymorth a chefnogaeth. Roedd pryderon ynghylch gwelededd Aelodau'r Cynulliad a'r angen am i gymorthfeydd gael eu cynnal ar adegau mwy cyfleus, h.y. ar ddydd Sadwrn.
- Roedd llawer o bobl heb wybod fod ganddynt bum cynrychiolydd etholedig yn y Cynulliad a nododd rhai pobl eu bod yn llai tebygol o ymgysylltu ag aelodau rhanbarthol.
- Awgrymodd pobl mai drwy fwy o addysg a gwaith allgymorth y mae cynyddu ymgysylltiad.
- Awgrymwyd bod y Cynulliad yn hyrwyddo'i waith, gan roi enghreifftiau o lwyddiant a sut y gall y Cynulliad wneud gwahaniaeth.
- Awgrymodd atborth gan grwpiau menywod fod camsyniad bod gwleidyddiaeth yn amgylchedd i ddynion gwyn.
- Dylai'r Cynulliad hyrwyddo'n well yr hyn yr ydym yn ei wneud o ran cydraddoldeb, yn fewnol ac yn allanol

**Ystadau hygyrch**

- Awgrymodd llawer o bobl yr angen am archwiliad mynediad newydd o'n hystâd er mwyn sicrhau bod materion yn ymwneud â mynediad yn cael eu hystyried.
- Dylai canllawiau i helpu Aelodau'r Cynulliad wneud eu swyddfeydd yn fwy hygyrch gael eu hyrwyddo'n well
- Amlygodd pobl y materion canlynol yn ymwneud â mynediad i'r Senedd:
    - Arwyddion - nododd pob grŵp i ni siarad â hwy'r angen am arwyddion y tu allan i'r Senedd yn amlinellu beth yw'r adeilad, lleoliad y fynedfa a pha wasanaethau a chyfleusterau sydd ar gael
    - Yr angen i hyrwyddo lleoliad y man gollwng ar gyfer ymwelwyr yn well.
    - Mae angen mwy o arwyddion o amgylch y Bae i gyfeirio pobl i'r Senedd ac i'r Pierhead
    - Nid yw llwybr y ramp i'r fynedfa'n glir
    - Mae'r fynedfa'n dywyll ac mae'n peri problemau i bobl sydd â nam ar eu golwg
    - Mae'r grisiau mawr y tu allan i'r Senedd yn beryglus
    - Nid yw'r disgiau dur yn y grisiau'n darparu digon o gyferbyniad i bobl â nam ar eu golwg
    - Mae'r bont wydr yn anodd i bobl â nam ar eu golwg a'r bendro
    - Cafwyd atborth cymysg am ein staff diogelwch. Roedd rhai'n gweld y staff diogelwch a'r heddlu'n swyddoglyd, yn fygythiol ac yn annymunol i ymwelwyr. Roedd eraill yn canmol y croeso a gawsant a pha mor gyfeillgar ac agos-atoch yw'r staff, yn enwedig y staff a oedd yn defnyddio Iaith Arwyddion Prydain (BSL) i groesawu gwesteion.
    - Mae'r sgriniau gwylio yn yr orielau yn rhy fach ac nid oes darpariaeth ar gyfer defnyddwyr cadeiriau olwyn (h.y. dim sgrin ar fraich sy'n ymestyn)
    - Mae angen cynnal a chadw'r system ddolen yn dda gan yr awgrymwyd nad yw bob amser yn gweithio ar draws yr ystâd.
    - Ystyriwyd bod adeilad y Senedd yn ei gyfanrwydd yn gymhleth– pa ardaloedd sydd ar agor i'r cyhoedd?
    - A oes cadeiriau achub ar gael i ymwelwyr anabl? Hefyd, sut mae pobl sydd â nam ar eu clyw'n gwybod os yw'r larwm tân yn canu?
    - Roedd ymwelwyr yn ystyried yr adeilad yn oer
    - Dylai'r drysau i gefn y brif lefel fod yn awtomataidd neu wedi'u dal ar agor er mwyn gwella mynediad i'r toiledau

    - Roedd pryder ynghylch effeithiolrwydd y llwyfan codi yn y Senedd

**Ymweliadau / Teithiau**

- Dylai teithiau gael eu hyrwyddo'n well i'r cyhoedd fel y dylai'r Cynulliad fel lle i ymweld ag ef.
- Hyrwyddo'r ffaith bod y teithiau ar gael mewn ieithoedd eraill, gan gynnwys Iaith Arwyddion Prydain
- Dylai gwybodaeth fod ar gael i ymwelwyr mewn amrywiaeth o ffurfiau amgen ac ieithoedd cymunedol
- Awgrymwyd y dylai cymhorthdal fod ar gael tuag at gostau teithio i'r Bae ar gyfer grwpiau difreintiedig
- Dylai fod mwy o wybodaeth i ymwelwyr ac arwyddion o amgylch Bae Caerdydd i ddenu ymwelwyr
- Dylid hyrwyddo gwybodaeth am sut i gyrraedd y Cynulliad – llwybrau bysiau, trenau ac ati – yn ogystal â hyrwyddo pa gyfleusterau sydd ar gael
- Dylid gwneud y Senedd yn fwy deniadol a rhyngweithiol. Dylai'r Cynulliad feddwl yn greadigol am yr hyn y gall pobl ei wneud ar ôl dod i mewn drwy'r drws.

**Gwybodaeth**

- Dylai gwybodaeth sylfaenol a rhagarweiniol am y Cynulliad fod ar gael mewn amrywiaeth o ffurfiau amgen (Braille, Hawdd ei darllen, print bras, fideo, clywedol) ac ieithoedd cymunedol, gan gynnwys Iaith Arwyddion Prydain a Ffarsi.
- Efallai y gellid sefydlu cronfa mynediad ganolog i staff ei defnyddio wrth ddarparu gwybodaeth mewn iaith neu ffurf wahanol.
- Cafwyd llawer o atborth am ba mor ddeniadol yw'r brand addysg o'i gymharu â'r brand 'corfforaethol'. Mae pobl yn llawer mwy tebygol o gymryd dogfen yn y brand hwn.
- Roedd nifer o faterion hygyrchedd yn ymwneud â'r brand, gan gynnwys:
    - Y ffaith nad yw'r defnydd o destun gwyn ar gefndir lliw golau yn darparu digon o gyferbyniad
    - Mae maint y ffont ar gyhoeddiadau'n aml yn rhy fach
    - Y defnydd o destun dros ddelwedd

    - Teimlwyd fod y llinell doriad i wahaniaethu rhwng y Gymraeg a'r Saesneg yn annigonol, yn gymhleth ac yn annymunol. Ystyriwyd bod cyhoeddi wyneb i waered yn fwy hygyrch
- Amlygwyd pwysigrwydd iaith glir, hygyrch, heb orsymleiddio'r neges ym mhob un o'r grwpiau ffocws ac yn rhai o'r cyflwyniadau ysgrifenedig. Roedd materion yn ymwneud â'r defnydd o acronymau, jargon ac iaith ffurfiol. Dylai awduron ystyried pa mor hawdd i'w ddarllen yw'r testun a'r ffaith mai oedran darllen ifanc iawn sydd gan nifer fawr o oedolion.
- Beth mae pobl am ei wybod? Dylid cael un ddogfen gyhoeddus, hygyrch yn amlinellu'r canlynol: cyflwyniad i'r Cynulliad ac i Aelodau'r Cynulliad, y gwahaniaeth rhwng y Llywodraeth a'r Cynulliad, sut i gymryd rhan (deisebau, ymweliadau [sut i gyrraedd yma a chyfleusterau], allgymorth, ymgynghoriadau), un man cyswllt.
- Dylai'r un ddogfen hon fod ar gael mewn amrywiaeth o leoliadau cymunedol a ddefnyddir gan y cyhoedd fel llyfrgelloedd, swyddfeydd Aelodau'r Cynulliad, canolfannau cymunedol, swyddfeydd Cyngor ar Bopeth, meddygfeydd a swyddfeydd post.
- Dylai gwybodaeth fod ar gael wrth y fynedfa i'r Senedd fel y gall pobl ganfod mwy am y Cynulliad cyn mynd drwy'r system ddiogelwch.

**Defnydd o'r cyfryngau**

- Ystyrir bod gorddibyniaeth ar y wefan i gyfathrebu ac ymgysylltu â'r cyhoedd.
- Dylai'r Cynulliad wneud mwy o ddefnydd o gyfryngau cymdeithasol (h.y. Facebook, Twitter) i gyfathrebu â phobl. Mae rhai grwpiau, fel pobl drawsrywiol, yn cysylltu drwy gyfryngau cymdeithasol yn hytrach na sefydliadau cynrychioliadol.
- Dylai'r Cynulliad wneud mwy o ddefnydd o gyfryngau lleol sydd wedi'u targedu, i hyrwyddo ymweliadau â'r ardal, ymgynghoriadau ac ati – radio lleol, papurau newydd lleol (mae'r adran newyddion cymunedol am ddim), chylchlythyrau ac e-fwletinau (mae gan gymdeithasau tai, sefydliadau cymunedol, elusennau a chynghorau i gyd gylchlythyrau).
- Gellid defnyddio dulliau mwy creadigol o farchnata – h.y. defnyddio sticeri finyl ar fysiau, safleoedd bysiau, mewn siopau, llyfrgelloedd ac ati i hyrwyddo un rhif cyswllt canolog ar gyfer y Cynulliad.

**Gwefan y Cynulliad**

- Mae'r wefan newydd yn fwy hygyrch ac yn haws i'w llywio
- Efallai y byddai'n werth i'r Cynulliad greu blog i bobl gofnodi'u profiad o weithio i'r Cynulliad neu ymweld â'r Cynulliad

- Dylid ei gwneud yn haws i ddod o hyd i gyhoeddiad heb orfod gwybod teitl y ddogfen
- Dylid cael mwy o fideos yn cyflwyno'r Cynulliad a dylai'r rhain fod yn fwy amlwg ar y wefan i bobl â lefelau llythrennedd is
- Dylai mwy o wybodaeth fod ar gael mewn fideos Iaith Arwyddion Prydain
- O dan cysylltu â'r Cynulliad, dylid cael adran sgwrsio'n fyw lle gall bobl gysylltu â'r llinell archebu heb orfod ffonio. Byddai hyn yn fwy hygyrch i bobl fyddar
- Dylai bod mwy o gyfle i ddarparu atborth am y Cynulliad, Aelodau'r Cynulliad, ein gwasanaethau a'n cyfleusterau – "beth yw eich barn?"

**Y Tîm Allgymorth**

- Cafwyd atborth cyffredinol gan y rheini a oedd eisoes yn gysylltiedig â'r tîm Allgymorth yn nodi ansawdd uchel eu gwaith
- Fodd bynnag, roedd diffyg ymwybyddiaeth o waith y tîm Allgymorth ymhlith rhai a ymatebodd, yn fewnol ac yn allanol
- Dylai'r tîm greu perthynas gyda grwpiau ar draws bob un o'r nodweddion cydraddoldeb gwarchodedig, gan ddefnyddio grwpiau sy'n bodoli eisoes fel Cynghorau Gwirfoddol Sirol, i hyrwyddo ymgysylltiad
- Parhau i roi cyflwyniadau ac i fod yn siaradwyr gwadd mewn digwyddiadau, cynadleddau, cyfarfodydd a grwpiau, h.y. elusennau, cymdeithasau tai, grwpiau cymunedol, Pobl yn Gyntaf, amrywiol weithleoedd ac ati
- Mae'n ddefnyddiol i grwpiau cymunedol gael un pwynt cyswllt
- Dylai'r tîm ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol, cysylltiadau lleol a chyfryngau lleol i roi gwybod am ble y byddant
- Bu taith y cyn Lywydd o amgylch Cymru'n llwyddiant o ran hyrwyddo gwaith y Cynulliad a dylid gwneud hyn eto
- Dylai Aelodau'r Cynulliad hyrwyddo ymweliadau a digwyddiadau allgymorth. Gellid gwneud hyn drwy eu gwefan neu lofnodion e-bost.
- Dylai gwaith allgymorth gael ei brif ffrydio drwy waith y Cynulliad lle mae gan grwpiau ddiddordeb neu lle gallant ychwanegu gwerth – h.y. ymgynghoriadau, asesiadau effaith, digwyddiadau ac ati
- Mae swyddogaeth i'r tîm Allgymorth hyrwyddo integreiddiad, dod â gwahanol grwpiau ynghyd i rannu diwylliannau, hyrwyddo cydraddoldeb a meithrin perthynas dda (fel ein dyletswydd o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010)

- Dylai’r Cynulliad weithio gydag Aelodau’r Cynulliad i gael mwy o ddigwyddiadau “cyfarfod a chyfarch” gyda grwpiau amrywiol, gan gynnwys, er enghraifft, cynnal digwyddiadau Hawl i Holi lleol.

**Digwyddiadau**

- O ran cynllunio Digwyddiadau ac Allgymorth, ystyriwyd nad oedd cysylltiad â Gogledd Cymru
- Dylai’r Cynulliad ddefnyddio digwyddiadau i gyflawni’n dyletswydd gyffredinol o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 – dileu gwahaniaethu, hyrwyddo cydraddoldeb a meithrin perthynas dda
- Dylai’r Cynulliad hyrwyddo’n well y gwaith yr ydym yn ei wneud o ran digwyddiadau mewn perthynas â chydraddoldeb, yn fewnol ac yn allanol
- Dylai’r Cynulliad hyrwyddo’r Senedd a’r Pierhead yn well fel lleoliadau ar gyfer digwyddiadau, arddangosfeydd a chyfarfodydd
- Yn aml, nid yw gwahoddiadau i ddigwyddiadau gan gyrff allanol yn hygyrch. A all y Cynulliad ddarparu canllawiau ar hygyrchedd i sefydliadau sy’n cynnal digwyddiadau ar ein hystâd?
- Mae nifer o ddigwyddiadau y gallai’r Cynulliad fod yn bresennol ynddynt / eu dathlu - h.y. Ramadan, Eid, Yr Wythnos Rhyng-ffydd, Y Flwyddyn Newydd Tsieineeg, Wythnos y Rhyl, Mela Rhyngwladol, Ymwybyddiaeth o fod yn Fyddar, Mardi Gras Gogledd Cymru. Pan fyddwn yn dathlu digwyddiadau o’r fath, ni ddylem ganolbwyntio ar Gaerdydd yn unig - h.y. digwyddiadau Mis Hanes Pobl Dduon neu Ddiwrnod Rhyngwladol y Menywod yng ngogledd a chanolbarth Cymru
- Dylai’r Cynulliad hyrwyddo digwyddiadau agored yn well, yn enwedig lle mae Iaith Arwyddion Prydain ar gael. Gellir hyrwyddo digwyddiadau o’r fath drwy gysylltiadau yn sefydliadau’r trydydd sector
- Mae angen i fwy o seddi fod ar gael ar gyfer digwyddiadau gan na all rhai pobl sefyll am gyfnodau hir
- Nid yw’r acwsteg yn y Senedd yn dda ar gyfer digwyddiadau, a gall y system ddolen fod yn aneffeithiol ar gyfer digwyddiadau mawr
- Dylid hyrwyddo’r Pierhead fel lleoliad mwy hygyrch ar gyfer cynadleddau / digwyddiadau
- Dylai’r Cynulliad dargedu digwyddiadau ar gyfer grwpiau penodol ac estyn allan atynt
- Yn hytrach na chael digwyddiadau mawr wedi’u noddi gan Aelodau’r Cynulliad yn y Senedd / Pierhead, a allai’r Cynulliad gael un diwrnod yr wythnos lle gall sefydliadau llai gael stondinau gwybodaeth? Nid yw sefydliadau llai, o angenrheidrwydd, yn gwybod am y Cynulliad fel lleoliad nac am yr angen i gael Aelod Cynulliad i noddi.

- Dylid rhoi cymorth ariannol i fynychwyr i'w helpu i fynychu digwyddiadau

**Busnes y Cynulliad**

- A oes lle i Gyfarfodydd Llawn gael is-deitlau / Iaith Arwyddion Prydain byw?
- Dylid cynnal pwyllgorau mewn lleoliadau hygyrch ar draws Cymru er mwyn cynyddu ymgysylltiad
- Dylai fod gan y Cynulliad raglen o ddigwyddiadau ymgynghori i alluogi pobl i gynllunio'u presenoldeb / cyfranogiad
- Dylai grwpiau cymunedol, unigolion ac elusennau ac ati gael y wybodaeth ddiweddaraf am ba ymgynghoriadau sy'n digwydd drwy e-bost
- Mae diffyg ymwybyddiaeth gyhoeddus o ymgynghoriadau
- Gall ymgynghoriadau a deisebau ar-lein greu rhwystrau i rai pobl - a aseswyd effaith y broses e-ddeisebau ar gydraddoldeb?
- Hoffai pobl sy'n cyfrannu at ymgynghoriadau glywed am y camau dilynol fel eu bod yn gwybod y canlyniadau
- Dylid rhoi cymorth ariannol i bobl sy'n mynychu ymgynghoriadau
- Dylid datblygu canllawiau ar sut i roi cymorth i dystion amrywiol
- Dylid cynnal digwyddiadau ymgysylltu mewn perthynas ag ymgynghoriadau ar draws Cymru ar adegau cyfleus.
- Dylid cael cronfa ddata cyswllt canolog er mwyn sicrhau cysondeb

**Mentora**

- Ystyriwyd fod y Cynllun Mentora Camu Ymlaen Cymru wedi bod yn llwyddiant mawr ac yn ffordd wych o gael pobl i gymryd rhan yng ngwaith y Cynulliad. Dylid gwneud hyn eto.

## Y Cynulliad fel cyflogwr

**Hyfforddiant**

- Dylid cynnal hyfforddiant ymwybyddiaeth i staff, sy'n cynnwys gwybodaeth ar draws y nodweddion gwarchodedig. Amlygwyd codi ymwybyddiaeth o bobl drawsrywiol, crefydd, anabledd (gan gynnwys anableddau anweladwy) a materion yn ymwneud â'r byddar.
- Dylai hyfforddiant cydraddoldeb gyfeirio'n benodol at y cyfrifoldebau cyfreithiol yn ymwneud â Deddf Cydraddoldeb 2010 i unigolion a'r sefydliad.
- Dylid targedu hyfforddiant ar gyfer gwahanol feysydd gwasanaeth. Er enghraifft, dylai hyfforddiant ar gyfer staff gwasanaeth cwsmeriaid gynnwys materion yn ymwneud â chydraddoldeb er mwyn hyfforddi

staff rheng flaen i fod yn fwy ymwybodol o'r effaith y maent yn ei gael ar ymwelwyr â'r Cynulliad. Dylid hyfforddi staff rheng flaen i gyfathrebu â phobl fyddar, gan gynnwys dysgu Iaith Arwyddion Prydain.

- Dylid rhoi mwy o gyhoeddusrwydd i restr termau i staff ei defnyddio.
- Dylid dosbarthu taflenni ffeithiau i atgoffa staff o'u cyfrifoldebau o ran cydraddoldeb.
- Dylid darparu hyfforddiant diweddaru blynyddol ar gydraddoldeb er mwyn rhoi gwybod i staff am ddatblygiadau.
- Dylai rhwydweithiau staff chwarae rhan mewn hyfforddiant a gellid ffurfio partneriaethau gyda sefydliadau lleol i roi gwybodaeth ychwanegol i staff.
- Bydd cyfuniad o hyfforddiant ar-lein a sesiynau ystafell ddosbarth yn cyrraedd mwy o aelodau staff a bydd yn cael mwy o effaith.
- Mae'n rhaid teilwra hyfforddiant rheolwyr llinell yn benodol er mwyn cynnwys materion yn ymwneud â chydraddoldeb gan gynnwys cefnogi staff amrywiol a mynd i'r afael ag ymddygiad annerbyniol.
- Dylid plannu cydraddoldeb ym mhob cwrs Rhaglen Datblygu Rheolwyr.
- Dylai fod gan staff ffordd o adrodd yn anhysbys am ddigwyddiadau neu gwynion yr hoffent eu gwneud mewn perthynas â bwlio neu aflonyddu.
- Efallai y gall staff sydd wedi cael hyfforddiant mentora a hyfforddiant, yn ogystal ag aelodau o'r Grŵp Llywio ar Gydraddoldeb, helpu i ledaenu gwybodaeth am gydraddoldeb i'w cydweithwyr.
- Dylid rhoi mwy o gyhoeddusrwydd i rwydweithiau staff ar gyfer staff.
- Dylai staff yng Ngogledd Cymru gael yr un mynediad at bob hyfforddiant â'r rheini yn Ne Cymru.

**Polisïau a gwybodaeth**

- Mae angen i'r adran Adnoddau Dynol gynnal ymgyrchoedd ymwybyddiaeth parhaus er mwyn tynnu sylw at eu polisïau. Amlygwyd polisïau mamolaeth/absenoldeb cyd-riant, gweithio hyblyg, rheoli absenoldeb ac urddas yn y gweithle.
- Dylid cael cysondeb wrth weithredu polisïau ar draws y sefydliad ac ar draws graddau
- Dylid hyrwyddo polisïau Adnoddau Dynol yn well a dylent fod yn haws i'w deall er mwyn galluogi pobl i gael mynediad atynt. Dylid defnyddio iaith glir hefyd.
- Dylai canllawiau polisi a chymorth fod ar gael mewn perthynas â materion yn ymwneud ag iechyd meddwl.
- Dylai'r Cynulliad gyhoeddi ystadegau'n rheolaidd sy'n arddangos cyfansoddiad ein gweithlu.

- Dylid cael 'hyrwyddwr cydraddoldeb' ym mhob maes gwasanaeth er mwyn cadw cydweithwyr yn ymwybodol o newyddion a materion yn ymwneud â chydraddoldeb.

### Recriwtio a hysbysebu

- Dylai ymrwymiad y Cynulliad i amrywiaeth gael ei gyfleu'n glir yn ein hysbysebion am swyddi.
- Dylai polisïau recriwtio annog pobl o amrywiol gefndiroedd i ymgeisio am swyddi yn y Cynulliad.
- Dylid cynnig lleoliadau gwaith a phrentisiaethau i bobl o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol yn rheolaidd.
- Dylai staff ar draws y cynulliad gael cyfle cyfartal o ran cael mynediad at hyfforddiant a swyddi.
- Dylid datblygu strategaeth glir i wella amrywiaeth y sefydliad a chwalu'r mythau a all atal pobl rhag ymgeisio am swyddi yma.
- Dylai ymwybyddiaeth o gydraddoldeb gael ei blannu yn yr hyfforddiant ar gyfer staff sy'n eistedd ar baneli cyfweld.

### Digwyddiadau

- Dylid cynnal Mis Cydraddoldeb eto er mwyn rhoi cyfle i staff ofyn cwestiynau a chael gwybodaeth mewn perthynas â materion yn ymwneud â chydraddoldeb.
- Dylid annog staff i fynychu digwyddiadau'n ymwneud â chydraddoldeb yn y Cynulliad ac yn y gymuned.

### Pwyntiau eraill

- Dylid gweithio ar draws adrannau ar fentrau'n ymwneud â chydraddoldeb er mwyn rhannu cyfrifoldebau ar draws timau.
- Dylai gwybodaeth wedi'i brandio fod yn hygyrch ac wedi'i hysgrifennu mewn Cymraeg/Saesneg clir.
- Cafwyd sylwadau cadarnhaol am y cymorth a gynigir gan y timau Iechyd a Diogelwch, Adnoddau Dynol a Chydraddoldeb a'r gwaith a wneir gan y tîm Cydraddoldeb o ran hyrwyddo cydraddoldeb a chodi ymwybyddiaeth ohono.

## Cefnogi Aelodau'r Cynulliad a Staff Cymorth

### Hyfforddiant

- Dylid rhoi llawlyfr cydraddoldeb i Staff Cymorth ochr yn ochr â llawlyfr Staff Cymorth Aelodau'r Cynulliad pan fyddant yn cychwyn ar eu swyddi.
- Dylid dosbarthu rhestr termau.
- Dylid rhoi offeryn hyfforddi ar-lein ar waith, y gall staff sydd wedi'u lleoli ym Mae Caerdydd ac yn y swyddfeydd etholaethol gael mynediad ato .
- Dylid rhoi hyfforddiant ychwanegol i reolwyr swyddfa a'u hannog i fynd i'r sesiynau hyfforddi o dan arweiniad y grwpiau plaid.
- Dylai taflenni ffeithiau gyda gwybodaeth allweddol am faterion yn ymwneud â chydraddoldeb mewn perthynas â'u swyddogaethau a'u cyfrifoldebau fod ar gael i Staff Cymorth Aelodau'r Cynulliad . Dylai'r rhain gynnwys gwybodaeth am sut i gael mynediad at wahanol wasanaethau fel cyfieithiadau Iaith Arwyddion Prydain.
- Dylai hyfforddiant amlinellu egwyddorion allweddol a thrafodaethau ynghylch yr hyn sy'n dderbyniol.
- Dylai Aelodau'r Cynulliad gael hyfforddiant cydraddoldeb.

**Cymorth i Aelodau'r Cynulliad fel cyflogwyr**

- Darparu gwybodaeth i Aelodau'r Cynulliad yn amlinellu'u cyfrifoldebau cyfreithiol fel cyflogwr bach mewn perthynas â chydraddoldeb. Dylai hyn gynnwys sicrhau bod eu swyddfeydd yn hygyrch i holl etholwyr a staff.
- Dylid creu canllaw rhestr wirio er mwyn sicrhau bod lleoliadau a ddewisir ar gyfer cymorthfeydd yn hygyrch.
- Gallai person allweddol, ym mhob plaid efallai, chwarae rhan mewn arwain Aelodau'r Cynulliad drwy eu cyfrifoldebau.

**Cymorth i Staff Cymorth Aelodau'r Cynulliad**

- Dylid rhoi gweithdrefn adrodd ar waith er mwyn caniatáu i staff cymorth godi materion.  Mae'r drefn bresennol gyda Chymorth Busnes yr Aelodau'n ddyrys gan fod staff cymorth yn cael eu cefnogi yn eilaidd gan Gymorth Busnes yr Aelodau ar ôl yr Aelodau Cynulliad eu hunain.
- Gwybodaeth am Fynediad i'r Gwaith i'w ddarparu ar gyfer staff cymorth er mwyn sicrhau bod gan staff fynediad at yr holl gymorth y mae hawl ganddynt gael mynediad ato. Gall hyn ymestyn i sicrhau bod gwasanaethau fel palanteipyddion ar gael ar gyfer cyfarfodydd grŵp.
- Dylai staff cymorth sydd wedi'u lleoli mewn swyddfeydd etholaethol allu cael mynediad at yr un lefel o gymorth â staff sydd wedi'u lleoli ym Mae Caerdydd.

**Cymorth i Aelodau'r Cynulliad yn eu swyddogaethau gwleidyddol**

- Darparu cyllid i helpu Aelodau'r Cynulliad ymgysylltu ag etholwyr amrywiol.
- Rhoi gwybod i Aelodau'r Cynulliad am gyrsiau hyfforddi a'u hannog i fod yn bresennol ynddynt
- Cynnal dadansoddiad o anghenion hyfforddi unigol pob Aelod Cynulliad i ganfod meysydd lle mae angen hyfforddiant arno.
- Parhau i ddarparu gwybodaeth am gydraddoldeb i Aelodau'r Cynulliad a Phwyllgorau.
- Holwyd a oes swyddogaeth i'r Tîm Cydraddoldeb o ran llunio agenda'r Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol.

**Rhwydweithiau staff**

- Mae angen rhoi mwy o gyhoeddusrwydd i rwydweithiau er mwyn cefnogi staff, drwy e-bost cyflwyniadol efallai.

**Monitro**

- Cynnal arolwg o staff cymorth Aelodau'r Cynulliad i ganfod cyfansoddiad y staff.
- Gofyn i staff cymorth a oes angen cymorth ychwanegol arnynt i wneud eu gwaith.

**Creu cysylltiadau gyda sefydliadau cymunedol**

- Amlygodd Age Cymru'r posibilrwydd o greu cysylltiadau â'u Rhwydwaith Lleiafrifoedd Ethnig Hŷn fel ffordd o helpu Aelodau'r Cynulliad i ddeall eu haelodau'n well.
- Nodwyd Rhwydwaith Gyfnewid y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chanolfan Cydraddoldeb a Hawliau Dynol y GIG hefyd fel lleoedd da i gysylltu â phobl ar draws Cymru.

**Interniaethau**

- Holodd staff cymorth am degwch interniaethau di-dâl. Mae angen gwneud Aelodau'r Cynulliad yn fwy ymwybodol o'r rheolau'n ymwneud â'u statws cyflogaeth.

## Mewnblannu Cydraddoldeb yn y Cynulliad

**Rheoli Perfformiad ac Adolygu Datblygiad (PMDR)**

- Dylid cynnwys amcanion cydraddoldeb yn y broses PMDR.

**Ystyried Gofynion Penodol**

- Dylai darparu ffurfiau amgen fod yn gymesur ac yn rhesymol

**Mewnblannu cydraddoldeb mewn timau**

- Dylai targedau cydraddoldeb fod yn eglur ac wedi'u cynnwys yng nghynlluniau timau er mwyn sicrhau bod pob aelod o staff yn eu deall ac yn gweithio tuag at eu cyflawni.
- Dylai arweinyddion ar gydraddoldeb o fewn meysydd gwasanaeth gael canllawiau mwy strategol er mwyn cynnal dull cyson ar draws y sefydliad.
- Mae'r Grŵp Llywio ar Gydraddoldeb yn ffordd wych o rannu gwybodaeth ar draws y sefydliad a dylai gyfarfod yn fwy rheolaidd.